**Canolfan Merched y Wawr**
**Stryd yr Efail**
**Aberystwyth**
**SY23 1JH**
**☎: 01970-624501**
**✉: post@cymdeithas.cymru**

14 Tachwedd 2023

Annwyl Rhuanedd Richards

**Didueddrwydd y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig**
**yng Nghymru ar fater Datganoli Darlledu**

Fe'n pryderwyd gan ohebiaeth rhyngoch chi, ar ran y BBC yng Nghymru, a Llywodraeth Cymru a dderbyniasom mewn ymateb i gais rhyddid gwybodaeth yn ddiweddar. Mae'n datgan barn mewn ffordd sy'n awgrymu'n gryf nad yw'r BBC yn ddiduedd ar fater datganoli dalledu, fel y byddem wedi ei ddisgwyl gan ddarlledwr cyhoeddus.

Bwriad amlwg y llythyr yw bwrw amheuon am gynnwys yr adroddiad mewn modd a fyddai'n tueddu i danseilio'i hygrededd wrth gwestiynu'r ymchwil 'Tueddiadau Darlledu' ac wrth ddweud *"nad yw'r panel yn darparu unrhyw dystiolaeth"* neu fod y BBC yn *"herio dadansoddiad"* yr adroddiad.

Rydych chi hefyd yn datgan barn glir, yng nghyd-destun datganoli darlledu a sefydlu'r Awdurdod Cyfathrebu a Darlledu i Gymru sy'n hanfodol er mwyn derbyn y pwerau newydd, y *"byddwn yn anghytuno'n gryf ag unrhyw awgrym nad oes llawer o feddwl nac arloesi yn digwydd o ran tueddiadau a llwyfannau ar gyfer y dyfodol"*, yn ogystal â'r datganiad *"Rwyf hefyd yn synnu ac ychydig yn siomedig gyda sylwadau'r panel am gynhyrchu dramâu a rôl cyd-gomisiynu."*

Wrth ddatgan barn yn y fath fodd mae'n amlwg mai'r bwriad yw tanseilio hygrededd yr adroddiad, ac felly argymhelliad yr adroddiad.

Hoffem gael sicrwydd gennych yn ysgrifenedig nad ydych chi, na BBC Cymru, yn arddel barn na thuedd ynglŷn â mater datganoli darlledu i Gymru a sefydlu'r Awdurdod Cyfathrebu a Darlledu cysgodol, ac na fydd y BBC yn ceisio dwyn perswâd ar Lywodraeth Cymru, nac unrhyw lywodraeth, i wrthod datganoli grymoedd dros ddarlledu i Gymru.

Gwerthfawrogwn yn fawr petaech yn darparu'r cadarnhad hwn i ni cyn gynted ag y bo modd er mwyn i ni fod yn sicr o ymrwymiad BBC Cymru i fod yn ddiduedd yn y mater.

Yn ogystal, a fyddai modd i ni gael cyfarfod buan gyda chi i drafod ein pryderon

ymhellach?

Edrychwn ymlaen i dderbyn eich ymateb cadarnhaol yn fuan.

Yn gywir

Mirain Owen
Is-gadeirydd, Grŵp Dyfodol Digidol, Cymdeithas yr Iaith

Copi at: Delyth Jewell AS, Cadeirydd, Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, Y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd